No.

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 2 Awst, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorwyr P. Drake, W.A. Hennessy a M.J.G. Morgan.

Hefyd yn bresennol: Mr. S.K. Dachepalli (Ymgeisydd), W. Lane (Rheolwr Gweithredol Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir), Cynghorydd J.M. Norman, R. Price (Swyddog Cyfreithiol Cyngor Bro Morgannwg) and M. Thomas (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraff, Cyngor Bro Morgannwg))

(a) Cyhoeddiad -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

Dywedodd y Swyddog fod copi o drefn y cyfarfod ar gael i'r Aelodau Etholedig yn y papurau agenda a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod.

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – Bod y Cynghorydd P. Drake yn cael ei ethol yn Gadeirydd am gyfnod gwrandawiad yr Is-bwyllgor

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

d) Deddf Trwyddedu 2003 – Amrywio Trwydded Safle – The Corner Shop, 31-33 Crawshay Drive, Llanilltud Fawr, CF61 2LH (ALl) –

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i wrandawiad yr Is-bwyllgor a diolchodd i Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu am wneud cyflwyniadau.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (a oedd yn cynnwys Trwyddedu), fod y cais gerbron yr Is-bwyllgor ar gyfer Amrywiad i

No.

Drwydded Safle yn The Corner Shop, 31-33 Crawshaw Drive, Llanilltud Fawr, CF61 2LH.

Roedd y cais (a atodwyd i'r adroddiad yn Atodiad A) ar gyfer:

Gwerthu Alcohol o ddydd Llun i ddydd Sul o 07:00 tan 23:00 o'r gloch (sef 2 awr ychwanegol ar agor). Atodwyd yr atodlen weithredu ar gyfer hyn yn Atodiad B i'r adroddiad.

Gwnaed tri datganiad gan Aelodau Etholedig Cyngor Bro Morgannwg lleol, (y Cynghorwyr Hanks, John a Norman) a oedd ynghlwm yn Atodiad C. Roeddent yn teimlo y byddai'r amrywiad arfaethedig a'r estyniad i oriau trwyddedu ar gyfer gwerthu alcohol o'r safle hwn yn tanseilio'r amcanion trwyddedu er anfantais i drigolion lleol.

Roedd Awdurdod Heddlu De Cymru, ar ôl bod â rhai pryderon cychwynnol ynghylch yr amrywiad trwyddedu hwn, wedi cytuno ar amodau ar ei gyfer fel sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad D i'r adroddiad gyda'r Ymgeisydd ac felly wedi tynnu eu sylwadau yn ôl ar hyn.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'r opsiynau sydd ar gael i Aelodau'r Pwyllgor ar benderfynu ar y drwydded hon, yn ogystal ag amlinellu'r argymhelliad allweddol ar benderfynu ar y cais hwn mewn perthynas â Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor, y Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003, y cais ac unrhyw sylwadau a gyflwynwyd. Os oedd yn bwriadu cymeradwyo’r cais hwn, gofynnwyd i’r Is-bwyllgor gadarnhau a oedd unrhyw amodau ychwanegol i'w gosod neu ddim ond y rhai a oedd yn gyson â'r atodlen weithredu ac wedi’u gosod ynddi.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gofynnodd y Cadeirydd am eglurder ar y cynigion y cyfeirir atynt yn Atodiad B. Eglurodd y Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir y byddai'r drwydded yn aros fel y mae ond y byddai'n syml yn ymestyn yr oriau ar gyfer gwerthu alcohol i’w yfed oddi ar y safle o'r oriau 07:00 tan 21:00, i 07:00 tan 23:00.

Gofynnodd y Cynghorydd Morgan am oriau agor arferol y siop (heblaw am werthu alcohol) ac a aeth hyn hyd at 23:00 o'r gloch. Oherwydd bod yr Ymgeisydd yn bresennol, byddai'n gallu cadarnhau a oedd hyn yn wir wrth annerch y Pwyllgor.

Gofynnodd y Cynghorydd Hennessy a oedd Heddlu De Cymru wedi cofnodi unrhyw ddigwyddiadau mewn perthynas â'r safle a'i drwyddedu alcohol presennol. Eglurwyd nad oedd Heddlu De Cymru wedi darparu unrhyw ddigwyddiadau o'r fath na chodi pryderon am y safle ac ymestyn ei oriau gwerthu alcohol i’w yfed oddi ar y safle y tu allan i'r amodau yr oeddent eisoes wedi'u trafod gyda'r Ymgeisydd.

O ystyried y weithdrefn ar gyfer y gwrandawiad, gwahoddwyd yr Ymgeisydd, Mr Dachepalli, wedyn i gyflwyno ei gais.

Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod wedi bod yn gweithredu’r siop ers chwe blynedd a bod ganddo systemau diogelwch, gan gynnwys botymau panig wedi'u gosod. Cadarnhaodd fod y siop ar hyn o bryd yn agor am 07:00 ac yn cau am 21:00 o'r gloch. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â'r heddlu. Dywedodd fod nifer o gwsmeriaid wedi gofyn am ymestyn oriau agor y siop tan 23:00.

Yna gofynnodd y Cadeirydd i'r holl bartïon a oedd yn bresennol a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau i’r Ymgeisydd.

Gofynnodd y Cynghorydd Hennessy am sŵn yn y safle / lleoliad. Cafodd wybod nad oedd llawer o dai yn agos i'r siop ac y byddai'r staff yn delio ag unrhyw sŵn y tu allan i'r siop ac roedd dau aelod o staff ar ddyletswydd. Cyfeiriodd hefyd at yr estyniad dwy awr y gofynnwyd amdano am werthu alcohol; Dywedwyd wrtho fod hyn oherwydd na fyddai estyniad byrrach o un awr er enghraifft yn ddigon a gofynnwyd am ddwy awr yn lle.

O ran ymholiad y Cadeirydd am y cyfleusterau parcio ar gyfer y siop, eglurwyd bod parcio ar y ffordd arferol heb unrhyw gyfyngiadau y tu allan i'r safle.

O ran ymholiad y Cynghorydd Morgan ar nifer y cwsmeriaid oedd o'r gymuned leol ac a gerddodd yn hytrach na gyrru i'r siop, dywedodd yr Ymgeisydd y byddai 70% o gwsmeriaid yn cerdded i'r siop. Dywedodd fod y siop nesaf tua milltir i ffwrdd a bod pobl wedi gofyn i'r siop fod ar agor tan yn ddiweddarach. Ar gwestiwn dilynol y Cynghorydd ynghylch a oedd yr Ymgeisydd yn bresennol ar y safle y rhan fwyaf o ddiwrnodau, dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn bresennol yn y safle bob dydd.

Yn dilyn hynny, dywedodd y Cynghorydd Norman ei bod yn gwrthwynebu'r cais hwn oherwydd pryderon am effaith hyn ar y llety pobl hŷn gerllaw. Dywedodd y Cynghorydd Norman hefyd ei bod yn poeni am loetran ac ymddygiad gwrthgymdeithasol posib, y gellid ei annog gan yr oriau agor / trwyddedu estynedig ac a welwyd yn lleol, beth amser yn ôl yn y gorffennol, oherwydd preswylydd blaenorol yn y fflat uwchben y siop. Ar ben hynny, roedd alcohol eisoes yn cael ei ddefnyddio tan 11pm gerllaw, sef tafarn leol. Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, nad oedd unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â'r safle gan Heddlu De Cymru a'u bod wedi cytuno ar amodau ychwanegol yr oedd yr heddlu'n teimlo oedd yn ddigonol i fodloni’r amcanion trwyddedu. Pe bai'r cais hwn yn cael ei gymeradwyo, yna byddai'r amodau hynny'n cael eu gosod fel rhan o'r drwydded wrth symud ymlaen.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cynghorydd Hennessy, cadarnhaodd y Cynghorydd Norman fod parcio ar gyfer ceir ac nad oedd parcio yn broblem ger y safle dan sylw. Fodd bynnag, pobl yn cerdded i'r siop ac loetran oedd y mater yr oedd y Cynghorydd am godi ei phryderon amdano.

Yn ei ddatganiad cau, dywedodd yr Ymgeisydd, pan gymerodd drosodd y siop, ei fod wedi uwchraddio'r systemau diogelwch ac roedd ganddo lawer iawn o brofiad, gyda'r siop yn gweithredu am chwe blynedd heb unrhyw broblemau. Dywedodd ei fod wedi dal trwydded bersonol am ddeng mlynedd a'i fod â’r gallu i reoli'r siop ac yn flaenorol roedd wedi rheoli gorsaf betrol 24 awr gyda gwerthiant alcohol yn Sain Tathan.

Yn olaf, gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad ar faint o aelodau staff fyddai yn y siop pan fyddant ar agor yn y nos.  Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai dau aelod staff yn y siop bob amser, ond gallai hyn godi i bedwar neu bump o bobl ar ddiwrnodau dosbarthu i helpu gyda'r stoc newydd, ac ati.

Gyda phob parti yn cael cyfle i gyflwyno eu sylwadau a heb unrhyw bartïon eraill i ymgynghori â nhw, a heb gwestiynau pellach gan aelodau'r Is-bwyllgor, cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Is-bwyllgor yn trafod yn breifat, gyda'r penderfyniad ar y cais yn cael ei roi i bob parti cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod a chyda chadarnhad ysgrifenedig o resymau'r Is-bwyllgor i ddilyn.

Yn dilyn hyn, bu'r Ymgeisydd, y Cynghorydd Norman a'r Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a oedd yn bresennol wedi datgysylltu o'r gwrandawiad, fel y cadarnhawyd gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, a thrafododd yr Is-bwyllgor Trwyddedu'r cais yn breifat gyda chefnogaeth Swyddog Cyfreithiol y Cyngor.

PENDERFYNWYD – BOD y cais, gyda'r amodau y cytunwyd arnynt gyda Heddlu De Cymru a'r Ymgeisydd yn Atodiad D i'r adroddiad, yn cael ei gymeradwyo.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Wrth ddod i'r penderfyniad heddiw, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â phawb oedd wedi gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar.  Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn enwedig yr amcanion trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ynghyd â Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor.